Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Asesu'r risg o niwed i blant a rhieni mewn achosion plant cyfraith breifat

## Diweddariad Cynnydd

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Cyfarwyddiaeth Polisi Cyfiawnder Troseddol a Theuluol
2019

## Cydnabyddiaeth

Hoffai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ddiolch i'r panel o arbenigwyr sydd wedi bod yn gweithio'n gydwybodol i gynllunio a gweithredu'r cais hwn am dystiolaeth.

Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i'r sefydliadau a fu'n hwyluso'r broses o gydweithio ag unigolion a oedd wedi cael profiad personol o'r broses cyfiawnder teuluol; Women's Aid, Cymorth i Ferched Cymru, Respect, Southall Black Sisters a'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc gan Cafcass ar ran y panel; roedd hyn yn gyfle i'w lleisiau gael eu clywed mewn ffordd a oedd yn cefnogi ac yn gwarchod eu hanghenion.

Mae angen diolch i Dr Adrienne Barnett o Brifysgol Brunel hefyd, am ategu'r cais am dystiolaeth gydag adolygiad cynhwysfawr o lenyddiaeth a'r gyfraith achos – mae hyn wedi bod yn rhan hanfodol o'r broses o feithrin gwell dealltwriaeth o'r materion.

Yn olaf, hoffai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ddiolch hefyd i'r 1,200 a mwy o bobl a wnaeth ymateb i'r cais am dystiolaeth ysgrifenedig, ac i'r rheini a fu yn y digwyddiadau trafod a'r sesiynau grŵp ffocws. Oni bai am yr unigolion hyn, sydd wedi rhoi o'u hamser ac wedi bod yn ddigon dewr i rannu eu profiadau, ni fyddem mewn sefyllfa mor gryf i bwyso a mesur y ffordd mae'r llys teulu yn delio â materion cam-drin domestig a niwed difrifol – sy'n faterion anodd iawn – ac i gymryd camau i sicrhau newid cadarnhaol.

## Yr awduron

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei ysgrifennu gan aelodau o'r panel sy'n arwain y cais am dystiolaeth, gyda chefnogaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder:

- Neil Blacklock, Cyfarwyddwr Datblygu, Respect
- Eleri Butler, Prif Weithredwr, Cymorth i Ferched Cymru
- Yr Athro Mandy Burton, Prifysgol Caerlŷr
- Lorraine Cavanagh QC a Dierdre Fottrell QC (cyd-gynrychiolwyr), Association of Lawyers for Children
- Mr Ustus Stephen Cobb, y Farnwriaeth
- Yr Athro Rosemary Hunter FAcSS, Prifysgol Caint
- Nicki Norman, Cyd Brif Weithredwr Dros Dro, Women's Aid
- Y Barnwr Rhanbarth Katherine Suh, y Farnwriaeth
- Yr Athro Liz Trinder, Prifysgol Caerwysg
- Isabelle Trowler, Prif Weithiwr Cymdeithasol Lloegr (Plant a Theuluoedd)

# Cynnwys


**Rhagair** **1**

**Cyflwyniad** **2**

**1. Yr amcanion** **4**

**2. Y dull gweithredu** **5**
2.1 Adolygiad o’r ymchwil 5
2.2 Y cais am dystiolaeth ysgrifenedig 6
2.3 Digwyddiadau trafod 7
2.4 Grwpiau ffocws 7

**3. Themâu a ddaeth i’r amlwg a’r camau nesaf** **9**
3.1 Y camau nesaf 9

# Rhagair

Bob dydd, mae Barnwyr ac Ynadon yn y llys teulu yn gwneud penderfyniadau anodd mewn achosion emosiynol iawn, ac mae nifer o’r achosion yn cynnwys honiadau o gam-drin neu niwed. Mae rhai o’r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas yn dod gerbron y llys teulu, ac mae’n hollbwysig bod y system yn gallu eu gwarchod. Mae’r fframwaith cyfreithiol a amlinellwyd yn Neddf Plant 1989 yn mynnu mai lles y plentyn yw prif ystyriaeth y llys. Fodd bynnag, mae pryderon wedi cael eu mynegi ynghylch sut mae system y llys teulu yn cydnabod ac yn ymateb i honiadau, ac achosion a brofwyd, o niwed i blant a rhieni dioddefwyr ym maes achosion plant cyfraith breifat.

Ar 21 Mai 2019 cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder gais cyhoeddus am dystiolaeth, a oedd yn cael ei lywio gan banel o arbenigwyr o bob rhan o’r maes cyfiawnder teuluol, er mwyn casglu tystiolaeth ynghylch sut mae’r llys teulu yn gwarchod plant a rhieni mewn achosion plant cyfraith breifat sy’n cynnwys pryderon am gam-drin domestig a throseddau difrifol eraill. Nod y gwaith hwn oedd deall yn well brofiadau’r rheini sy’n rhan o achosion o’r fath, dod o hyd i unrhyw broblemau systemig, a datblygu sylfaen dystiolaeth fwy cadarn i lywio gwelliannau.

Roedd aelodau’r panel a oedd yn arwain y cais hwn am dystiolaeth yn dod o sefydliadau allweddol o bob rhan o’r maes cyfiawnder teuluol, gan gynnwys y Farnwriaeth, y byd academaidd, gofal cymdeithasol, swyddogion polisi, a mudiadau’r trydydd sector. Roeddent yn gyfrifol am gydlynu’r cais am dystiolaeth, gan ofyn am gyfraniadau gan unigolion a sefydliadau sydd â phrofiad o’r elfen hon o gyfiawnder teuluol, naill ai mewn cyd-destun personol neu mewn cyd-destun proffesiynol.

Mae’r diweddariad cynnydd hwn yn rhoi manylion am y camau mae’r panel wedi’u cymryd i gasglu'r dystiolaeth honno. Mae’r panel yn parhau i wyntyllu’r cyfoeth o dystiolaeth a gasglwyd, a bydd yn llunio adroddiad yn ystod y misoedd nesaf.

**Melissa Case a Nicola Hewer**

Cyd-gadeiryddion y Panel

# Cyflwyniad

Roedd y cais hwn am dystiolaeth yn ceisio meithrin gwell dealltwriaeth o ba mor effeithiol yw proses y llys teulu ar gyfer adnabod ac ymateb i honiadau o gam-drin domestig a niwed difrifol arall, mewn achosion lle mae'r rhieni'n anghytuno ynghylch y trefniadau ar gyfer eu plant ar ôl iddynt wahanu (sef 'achosion plant cyfraith breifat'). Y nod oedd datblygu sylfaen dystiolaeth fwy cadarn o ran y broses a'r canlyniadau i'r partïon a'r plant sy'n rhan o achosion o'r fath.

Nododd y panel elfennau penodol i ymchwilio iddynt er mwyn deall sut mae'r llys yn gweithio'n ymarferol, a meithrin dealltwriaeth fanylach o unrhyw niwed a achoswyd i rieni a/neu blant yn ystod achosion plant cyfraith breifat neu'n dilyn hynny. Felly roedd y cais am dystiolaeth yn canolbwyntio'n benodol ar y ffordd mae gorchmynion a gweithdrefnau penodol, sydd ar waith ar hyn o bryd neu sydd ar gael i helpu pobl fregus mewn achosion llys teulu, yn cael eu rhoi ar waith. Roedd yn ymchwilio i'r canlynol:

- Sut mae Cyfarwyddyd Ymarfer 12J yn cael ei roi ar waith yn ymarferol, a'i ganlyniadau a'i effaith ar blant a rhieni. Mae hyn yn cynnwys y ffordd mae'n gweithio gyda'r rhagdybiaeth y byddai'n fuddiol i'r plentyn i'w ddau riant fod yn rhan o'i fywyd (presumption of parental involvement) yn a.1(2A) Deddf Plant 1989;

- Sut mae Rhan 3A o'r Rheolau Trefniadaeth Teulu (FPR) a Chyfarwyddyd Ymarfer 3AA yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol, a'u canlyniadau a'u heffaith mewn achosion sy'n cynnwys cam-drin domestig neu droseddau difrifol eraill yn erbyn partïon a/neu blant;

- Sut mae a.91(14) Deddf Plant 1989 yn cael ei rhoi ar waith yn ymarferol, a'i chanlyniadau a'i heffaith mewn achosion sy'n cynnwys cam-drin domestig;

- Ym mhob achos, heriau gweithredu'r darpariaethau hyn, natur unrhyw anghysondebau a diffygion yn y broses o'u rhoi ar waith, a beth sy'n achosi'r anghysondebau a'r diffygion hynny;

- Y risg o niwed i blant a rhieni sydd heb gam-drin sy'n parhau i gael perthynas a chyswllt â rhiant sydd wedi cyflawni camdriniaeth ddomestig (gan gynnwys ymddygiad gorfodol a rheolaethol), neu sydd wedi cyflawni troseddau difrifol eraill yn erbyn y rhiant arall neu blentyn, fel cam-drin plentyn, treisio, ymosodiad rhywiol neu lofruddiaeth.

I sicrhau y byddai'r panel yn cael cyfraniadau o fewn y cyfnod a oedd ar gael gan gynifer â phosib o bobl a oedd â phrofiadau proffesiynol a phersonol perthnasol o achosion o'r fath, aeth y panel a oedd yn arwain y cais am dystiolaeth ati i gynllunio proses a oedd yn defnyddio dulliau cymysg. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth manwl, gan gynnwys adolygiad o'r gyfraith achos; cais cyhoeddus am dystiolaeth ysgrifenedig; cyfres o ddigwyddiadau trafod gyda gweithwyr proffesiynol o'r maes cyfiawnder teuluol; a chyfres o grwpiau ffocws gydag unigolion sydd wedi cael profiad uniongyrchol o'r achosion hyn.

Roedd y panel yn awyddus iawn i gael tystiolaeth o unrhyw niwed i blant a/neu rieni yn ystod achosion plant cyfraith breifat neu yn dilyn hynny, lle mae honiadau a/neu dystiolaeth o gam-drin domestig neu droseddau eraill sy’n peri risg o niwed i blant neu rieni (fel cam-drin plentyn, treisio, ymosodiad rhywiol neu lofruddiaeth).

# 1. Yr amcanion

Dyma oedd y cwestiwn ymchwil cyffredinol ar gyfer y cais hwn am dystiolaeth:

*"Pa mor effeithiol yw'r llysoedd teulu o ran ymateb i honiadau o gam-drin domestig a risgiau eraill o niwed i blant a rhieni dioddefwyr mewn achosion plant cyfraith breifat, o ystyried y broses a'r canlyniadau i'r partïon a'r plant."*

Dyma oedd amcanion y cais am dystiolaeth:

- Deall sut mae Cyfarwyddyd Ymarfer 12J,[1] Cyfarwyddyd Ymarfer 3AA, Rhan 3A o Reolau Trefniadaeth Teulu 2010,[2] a gorchmynion a.91(14)[3] yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol a'u heffaith, gan gynnwys sut mae'r Cyfarwyddiadau Ymarfer hyn yn gweithio gyda'r eithriad risg o niwed ar gyfer y rhagdybiaeth y byddai'n fuddiol i'r plentyn i'w ddau riant fod yn rhan o'i fywyd;
- Deall yr heriau wrth roi'r Cyfarwyddiadau Ymarfer a gorchmynion a.91(14) ar waith;
- Deall natur unrhyw anghysondeb wrth roi'r darpariaethau ar waith;
- Deall y risg o niwed i blant a rhieni dioddefwyr wrth barhau i gael perthynas â rhiant, neu'r niwed a gaiff ei achosi drwy orchmynion cyswllt sy'n cynnal y cysylltiad â'r rhiant sy'n gyflawnwr (parent perpetrator) pan fydd tystiolaeth o gam-drin domestig, gan gynnwys ymddygiad sy'n gorfodi ac ymddygiad sy'n rheoli, neu ymddygiad arall sy'n peri risg o niwed i blentyn neu riant.
- Dehongli'r dystiolaeth a gasglwyd, a gwneud argymhellion ar gyfer y camau nesaf.

[1] Mae **Cyfarwyddyd ymarfer 12J** yn nodi'r weithdrefn i aelodau'r farnwriaeth sy'n delio ag achosion trefniadau plant sy'n cynnwys honiadau o gam-drin domestig, ac yn darparu ar gyfer mesurau arbennig mewn achosion sy'n cynnwys plant.

[2] Mae **Rhan 3A a Chyfarwyddyd Ymarfer 3AA** yn nodi'r weithdrefn sy'n cael ei hargymell ar gyfer ynadon sy'n delio â phobl fregus mewn achosion teulu (gan gynnwys partïon a warchodir a'r rheini sydd â phryderon am gam-drin domestig). Mae'n darparu ar gyfer mesurau arbennig i sicrhau nad yw'r partïon yn cymryd llai o ran yn y broses, ac nad yw ansawdd y dystiolaeth yn gostwng.

[3] **Gorchmynion sy'n dilyn Adran 91(14) Deddf Plant 1989**: mae 'gorchmynion gwahardd' yn rhwystro parti rhag gwneud rhagor o geisiadau i'r llys heb gael caniatâd y llys.

# 2. Y dull gweithredu

Lluniodd y panel ei raglen casglu tystiolaeth mewn ffordd a oedd yn rhoi'r prif bwyslais ar glywed gan y rheini a oedd â phrofiad personol a phroffesiynol o achosion plant cyfraith breifat, a oedd yn cynnwys honiadau o gam-drin domestig neu niwed difrifol arall. Gan fod hyn yn waith mor bwysig a brys, cafodd y panel y dasg o gasglu tystiolaeth o fewn tri mis. I sicrhau bod unigolion a sefydliadau yn cael digon o gyfle i gyfrannu at y cais am dystiolaeth o fewn y cyfnod byr a oedd ar gael, penderfynodd y panel gynnal adolygiad ymchwil, cyhoeddi cais am dystiolaeth ysgrifenedig, a chynnal digwyddiadau trafod a grwpiau ffocws.

## 2.1 Adolygiad o'r ymchwil

Fel rhan o'r cais hwn am dystiolaeth, comisiynwyd adolygiad o'r ymchwil a oedd ar gael ynghylch y risgiau i blant a rhieni sy'n rhan o achosion plant cyfraith breifat sy'n cynnwys cam-drin domestig, a sut mae'r risgiau hyn yn cael eu rheoli gan y llys teulu. Dr Adrienne Barnett o Brifysgol Brunel oedd yn arwain yr adolygiad o'r ymchwil a'r gyfraith achos ar ran y panel. Cafodd hyd a lled yr adolygiad hwn, y pynciau penodol i'w hystyried, a'r astudiaethau ymchwil allweddol i'w cynnwys eu pennu drwy ymgynghori ag aelodau'r panel.

Mae tair thema eang i'r adolygiad o'r ymchwil:

- Profiadau plant a rhieni o gam-drin domestig cyn i'r rhieni wahanu ac ar ôl hynny;
- Profiadau plant a rhieni o benderfyniadau ac achosion y llys teulu yng nghyd-destun cam-drin domestig;
- Sut mae system y llys teulu'n rheoli ac yn ymateb i gam-drin domestig mewn achosion plant cyfraith breifat, gan gynnwys sut mae'r llysoedd yn rhoi Cyfarwyddyd Ymarfer 12J (PD12J) ar waith, yn gorfodi gorchmynion cyswllt ac yn rheoli achosion o ymgyfreitha camdriniol.

Roedd y llenyddiaeth a adolygwyd yn cynnwys amrywiaeth eang o astudiaethau ymchwil sydd wedi cael eu cyhoeddi mewn adroddiadau ymchwil, monograffau ac erthyglau mewn cyfnodolion academaidd. Mae'r rhain yn cynnwys astudiaethau meintiol mawr sy'n seiliedig ar arolygon a chofnodion y llys neu Cafcass; astudiaethau ansoddol sy'n defnyddio cyfweliadau, grwpiau ffocws, astudiaethau achos ac arsylwi; adolygiadau llenyddiaeth; astudiaethau edrych yn ôl; astudiaethau yn y Deyrnas Unedig ac mewn

awdurdodaethau eraill; ac ymchwil hydredol. Bydd yr adolygiad llenyddiaeth cyflawn a chrynodeb ohono ar gael ochr yn ochr ag adroddiad terfynol y panel.

## 2.2 Y cais am dystiolaeth ysgrifenedig

Un o nodau sylfaenol y cais am dystiolaeth ysgrifenedig oedd sicrhau y byddai modd casglu tystiolaeth gan amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau a oedd â phrofiad o achosion cyfraith breifat, a oedd yn cynnwys honiadau o gam-drin domestig a throseddau difrifol eraill a oedd yn peri risg o niwed i blant a/neu rieni dioddefwyr. Roedd y cais am dystiolaeth yn cynnwys holiadur manwl a oedd ar gael ar-lein i'r cyhoedd am gyfnod o chwe wythnos.[4] Darparwyd copïau yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd, ac roeddent yn cael eu derbyn dros e-bost neu ar ffurf copi caled drwy'r post.

Roed y panel wedi llunio'r cwestiynau yn y cais am dystiolaeth mewn ffordd a fyddai'n hwylus i'r cyhoedd, ac a oedd hefyd yn gofyn am farn gweithwyr proffesiynol o'r maes cyfiawnder teuluol ynghylch yr agweddau mwy technegol. Roedd y cwestiynau wedi cael eu strwythuro mewn wyth prif adran, a oedd yn gofyn am wybodaeth ynghylch profiad yr ymatebydd o'r canlynol:

- Achosion plant cyfraith breifat yn gyffredinol;
- Mynegi honiadau o gam-drin domestig neu droseddau difrifol eraill mewn achosion plant cyfraith breifat;
- Llais plant yn yr achosion hyn;
- Y broses ar gyfer sôn am gam-drin domestig;
- Diogelwch a mesurau amddiffyn yn y llys i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig a throseddau difrifol eraill;
- Ceisiadau niferus i'r llys teulu sy'n ymwneud â cham-drin domestig a throseddau difrifol eraill;
- Y canlyniadau i blant a rhieni dioddefwyr sy'n rhan o achosion o'r fath;
- Unrhyw wybodaeth, profiadau neu argymhellion eraill roedd yr ymatebydd eisiau eu rhannu.

Cafwyd dros 1,200 o ymatebion gan unigolion a sefydliadau ar hyd a lled Cymru a Lloegr ar gyfer y cais am dystiolaeth ysgrifenedig. Roedd y mwyafrif helaeth o'r rhain (80%) yn ymatebion gan unigolion a oedd â phrofiad personol o'r achosion hyn, ac roedd 9% yn ymatebion gan y rheini a oedd â phrofiad proffesiynol/ymarferol o'r llys teulu. Roedd 63%

[4] Roedd y cais am dystiolaeth ar gael ar-lein rhwng 19eg Gorffennaf a 26ain Awst 2019.

o’r ymatebion wedi’u cyflwyno gan bobl a oedd yn dweud eu bod yn famau neu’n aelod o deulu’r fam, ac roedd 17% gan dadau neu bobl a oedd yn aelod o deulu’r tad.

Roedd yr ymatebion i’r cais am dystiolaeth yn rhoi darlun diddorol o’r broses a’r canlyniadau i’r rheini sy’n rhan o achosion plant cyfraith breifat. Maent wedi cael eu dadansoddi yn ôl thema, ac mae’r panel cyfan wedi trafod y themâu ac wedi cytuno arnynt. Er nad oedd yn bosib cynnal rhaglen ymchwil systematig o fewn y cyfnod a oedd ar gael, mae’r panel yn ffyddiog bod yr ymatebion a gafwyd, gyda’i gilydd, yn rhoi sylfaen dystiolaeth gadarn i lywio argymhellion clir ar gyfer gwelliannau.

## 2.3 Digwyddiadau trafod

Cynhaliodd y panel gyfres o dri digwyddiad trafod i’r rheini â phrofiad proffesiynol ac ymarferol o gyfiawnder teuluol, yn enwedig achosion cam-drin domestig. Cynhaliwyd y digwyddiad trafod cyntaf yn Llundain, a gwahoddwyd aelodau o’r farnwriaeth a’r system llysoedd i rannu eu profiadau o ran cwestiynau’r ymchwil, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. Cafodd yr ail ddigwyddiad trafod hefyd ei gynnal yn Llundain, a gwahoddwyd amrywiaeth ehangach o ymarferwyr i rannu eu profiadau, gan gynnwys y rheini a oedd yn gweithio mewn gwasanaethau cymorth ar gyfer cam-drin domestig ac yn y maes gofal cymdeithasol, y trydydd sector, Cafcass, y sector cyfreithiol ac mewn gwasanaethau perthnasol eraill. Cynhaliwyd y digwyddiad trafod olaf yng Nghaerdydd. Gwahoddwyd ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol o bob rhan o’r maes cyfiawnder teuluol, ac roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar sut mae’r system yn gweithio yng Nghymru.

Pwrpas defnyddio digwyddiadau trafod oedd sbarduno trafodaeth rhwng cynrychiolwyr mewn gwahanol rolau er mwyn cael dealltwriaeth fanylach o’r realiti, yr heriau a’r cyfleoedd i wella pethau mewn achosion plant cyfraith breifat. Mae recordiad sain wedi cael ei wneud o bob un o’r sesiynau trafod, ac mae pob sesiwn wedi cael ei thrawsgrifio a’i dadansoddi yn ôl thema.

## 2.4 Grwpiau ffocws

Cynhaliodd y panel gyfres o grwpiau ffocws ar hyd a lled Cymru a Lloegr, er mwyn casglu tystiolaeth gan unigolion sydd wedi cael profiad personol uniongyrchol o achosion plant cyfraith breifat a oedd yn cynnwys honiadau o gam-drin domestig neu niwed arall.

Cynhaliwyd 10 sesiwn i gyd gyda gwahanol garfanau o unigolion, er mwyn sicrhau bod y panel yn cael amrywiaeth eang o brofiadau a safbwyntiau. Cynhaliwyd sesiynau â mamau a oedd wedi bod yn rhan o achosion o’r fath fel dioddefwyr cam-drin domestig a niwed difrifol

arall; gan gynnwys sesiwn yn benodol i fenywod o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME); tadau a oedd wedi bod yn rhan o achosion naill ai fel dioddefwyr cam-drin domestig, neu fel unigolion a oedd wedi bod yn destun honiadau yn eu herbyn; a phlant a oedd wedi bod yn barti mewn achosion o’r fath.

Gan fod y pwnc dan sylw yn un mor sensitif, cynhaliwyd y grwpiau ffocws hyn gyda help mudiadau o’r trydydd sector sy’n gweithio ym maes cyfiawnder teuluol, a fyddai’n gallu cynnig cymorth arbenigol i’r rheini a oedd yn bresennol cyn y sesiynau, yn ystod y sesiynau ac ar ôl iddynt ddod i ben. Roedd y mudiadau hyn yn cynnwys Women’s Aid, Cymorth i Ferched Cymru, Respect, y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc gan Cafcass, a Southall Black Sisters. Roedd aelod o’r panel yn bresennol ym mhob sesiwn er mwyn goruchwylio a chynnig cymorth, a chafodd pob sesiwn ei recordio a’i chofnodi. Cafodd y cofnodion hyn eu gwerthuso’n thematig fel rhan o’r broses o gasglu tystiolaeth.

# 3. Themâu a ddaeth i’r amlwg a’r camau nesaf

Mae dadansoddiad cychwynnol o’r dystiolaeth a gasglwyd yn dangos bod llawer o gysondeb rhwng gwahanol elfennau o waith y panel. Er bod y 1,200 o ymatebwyr i’r cais am dystiolaeth ysgrifenedig yn cynnig amrywiaeth eang o safbwyntiau, roedd llawer o debygrwydd rhwng y profiadau a gofnodwyd. Roedd llawer o’r ymatebion hyn yn cyfeirio at yr heriau roeddent wedi’u hwynebu yn y system cyfiawnder teuluol wrth roi Cyfarwyddyd Ymarfer 12J ar waith, ac wrth ddefnyddio gorchmynion Adran 91(14) a Rhan 3A o’r Rheolau Trefniadaeth Teulu, a Chyfarwyddyd Ymarfer 3AA. Roedd y dystiolaeth o’r digwyddiadau trafod a’r grwpiau ffocws yn ategu’r pryderon hyn, ac yn cynnig awgrymiadau am welliannau posib i’r prosesau. Mae’r dystiolaeth o’r cais am dystiolaeth ysgrifenedig, ac o’r digwyddiadau trafod a’r grwpiau ffocws, yn cyd-fynd â’r prif negeseuon a nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth.

Mae’r dystiolaeth a gasglwyd yn amlygu problemau systemig o ran adnabod a rheoli risg, ac mae angen mynd i’r afael â’r rheini er mwyn sicrhau bod dioddefwyr a phlant sy’n rhan o’r achosion hyn yn cael eu gwarchod yn well rhag niwed pellach. Mae llawer o’r dystiolaeth hon yn ymwneud â phrofiad o’r broses cyfiawnder teuluol, a chanlyniadau’r broses honno. Er enghraifft, roedd llawer o ymatebwyr a oedd wedi cael eu cam-drin yn teimlo bod proses y llys teulu (gan gynnwys cael eu croesholi’n uniongyrchol gan y sawl a oedd wedi’u cam-drin, ymysg pethau eraill) yn eu hiselhau ac yn gwneud iddynt ail-fyw’r trawma. O ran y canlyniadau, roedd yr ymatebwyr yn mynegi pryderon yn aml ynghylch sut roedd y llys teulu wedi blaenoriaethu perthynas y plentyn â rhiant nad oedd yn byw yn y cartref dros les y plentyn, a’r risgiau posib y gallai hyn eu hachosi i’r plentyn a’r rhiant arall.

## 3.1 Y camau nesaf

Mae’r panel wedi cwblhau’r cam casglu tystiolaeth, ac wrthi’n dadansoddi ymhellach y cyfoeth o ddata a gasglwyd. Mae’r dystiolaeth yn cael ei dadansoddi yn erbyn pob un o’r amcanion er mwyn adnabod anawsterau â’r arferion presennol ym maes cyfiawnder teuluol, y canlyniadau i bartïon mewn achosion plant cyfraith breifat, a gwelliannau posib.

Bydd y panel yn pwyso a mesur gyda rhanddeiliaid allweddol fel rhan o’r cam dadansoddi pellach. Bydd hyn yn gyfle i’r panel gael trafodaeth fanwl â rhanddeiliaid ynghylch ei ganfyddiadau dros dro er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth gyffredinol o’r problemau, gan ofalu bod mwy o gydweithio rhwng y sefydliadau sy’n rhan o achosion plant cyfraith breifat.

Mae’n hollbwysig bod y panel yn gallu neilltuo digon o amser i ystyried yn llawn y swmp anferth o dystiolaeth a gasglwyd. Mae’n dal i wyntyllu a dadansoddi’r dystiolaeth hon, ac yn bwriadu cyhoeddi adroddiad sy’n egluro ei ganfyddiadau yn ystod y misoedd nesaf.

© Hawlfraint y Goron 2019

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn mojanalyticalservices@justice.gsi.gov.uk

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael i’w lawrlwytho yn http://www.justice.gov.uk/publications/research-and-analysis/moj